**TAR ITM Pecyn Croesawu: 2023-24**

Annwyl Fyfyriwr TAR ITM,

Croeso i'r Rhaglen TAR ITM – a llongyfarchiadau ar ennill eich lle!

Wrth baratoi ar gyfer y flwyddyn brysur a chyffrous sydd o'n balenau, a fedrwch gyflawni'r tasgau isod, sydd wedi eu hanelu at eich helpu i baratoi ar gyfer y cwrs. Gofynnir i chi orffen y tasgau hyn erbyn **Medi 2023**.

1) **CADARNHAU EICH LLE**
   Wrth i chi dderbyn y pecyn hwn, a fedrwch chi ebostio er mwyn cadarnhau y byddwch yn ymuno â ni ym mis Medi 2023: ccprogadmin@cardiffmet.ac.uk

2) **HUNAN ASESU EICH GWYBODAETH PWNC**

   Darllenwch drwy fanyleb Lefel A y CBAC (WJEC) ar gyfer yr iaith/ieithoedd yr ydych wedi ymgeisio ei/eu dysgu. Darllenwch drwy'r gofynion Gramadeg (Atodiad A) yn benodol, gan hunan asesu eich gwybodaeth bersonol o'r pwyntiau gramadegol.

   French: https://www.cbac.co.uk/media/yyde3j3i/wjec-gce-french-spec-from-2016-w-04-12-2019.pdf (Atodiad A, t. 29 – 31)

   Spanish: https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/sbaeneg-ug-safon-uwch/#tab_overview (Atodiad A, t. 29 – 31)

   German: https://www.cbac.co.uk/media/nvhnignl/wjec-gce-german-spec-from-2016-w-04-12-2019.pdf (Atodiad A, pp. 29 – 31)

Darllenwch drwy'r rhestr a byddwch yn onest gyda'ch hun.

Pan fyddwch yn dechrau addysgu, bydd angen i chi gynllunio ac addysgu gwersi ar gyfres o bynciau; byddai'n well eich bod yn ymwybodol o unrhyw fylchau yn eich gwybodaeth nawr felly.

Cadwch ymalen i ymarfer eich sgiliau iaith wrth wrando a darllen yn yr iaith darged ac wrth wneud ymarferion gramadeg. Rhaid i'ch gwybodaeth iaith fod yn gywir er mwyn ei dysgu yn effeithiol ac yn glir i ddisgyblion. Bydd llyfr gramadeg da yn werthfawr dros ben e.e.

*Harrap's Grammar Revision* – sydd yn glir wrth esbonio pethau (ond mae eraill ar gael!)

| | |
|---|---|
| Mille et Un Points | (Ffrangeg) |
| Kernpunkte | (Almaeneg) |
| Punto por Punto | (Sbaeneg) |

Ewch ar wefan y CBAC i edrych ar gyn bapurau. Rhowch gynnig ar y papurau i wirio eich gwybodaeth bynciol yn TGAU a Lefel A.

Ewch i wefan y CBAC a dewch o hyd i'r papurau TGAU / UG / A yn yr iaith berthnasol. Wrth i chi weithio trwy bapurau, meddyliwch am unrhyw gamsyniadau neu anawsterau a allai godi ar gyfer disgyblion TGAU / Lefel wrth ateb y cwestiynau.

Wrth i chi weithio drwy'r papurau, **meddyliwch ac ysgrifennwch rai camsyniadau neu anawsterau y credwch y gallai disgyblion TGAU neu Lefel A eu cael gyda rhai o'r cwestiynau.**

Ystyriwch y cwestiynau canlynol:
• Pam ydych chi'n meddwl bod rhai sgiliau yn fwy anodd nag eraill?
• Pa sgiliau sydd fwyaf heriol i'n dysgwyr?
• Beth yw eich barn am y ffilmiau gosod ar gyfer UG a'r llyfrau gosod ar gyfer U2?
• Pa mor wahanol yw'r fanyleb i'r cwrs TGAU a Safon Uwch y dilynoch chi?

A allwch ddod â'ch meddyliau a syniadau gyda chi ym mis Medi.

## 3) GWNEUD GWAITH DARLLEN

E.g. darllen pytiau o'r canlynol

- Capel, S., Leask, M. and Turner, T. (2016) *Learning to teach in the secondary school*, 7th edn. London: Routledge.
- Kyriacou, C. (2009) *Effective teaching in schools: theory and practice*, 3rd edn. Cheltenham: Nelson Thornes.
- Muijs, D. and Reynolds, D. (2017) *Effective teaching: evidence and practice*, 4th edn. London: Sage.

Darllen am addysgu ITM, e.e.

- Pachler, N. and Redondo, A. (2007) *A practical guide to teaching modern foreign languages in the secondary school*, London, Routledge
- Ann Swarbrick, Patricia Driscoll and Ernesto Macaro (2014) Debates in Modern Languages Education. Taylor and Francis. Ar gael yma: https://doi.org/10.4324/9781315856551
- Smith, S. and Conti, G. (2016) The Language Teacher Toolkit
- Macaro, Ernesto & Woore, Robert. (2021). *Debates in Second Language Education*. New York:Routledge

## 4) EDRYCH AR WEFANNAU GWAHANOL / BLOGIAU

Edrchwch ar y rhain; byddant yn ddefnyddiol iawn i chi yn ystod y Rhaglen TAR.

Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) – adnoddau TGAU / Lefel A

Cwricwlwm Newydd i Gymru – gwybodaeth am y Cwricwlwm Newydd i Gymru; ewch at y wybodaeth ar Ieithoedd, Llynthrennedd a Chyfathrebu yn benodol

Blogiau ar fethodoleg ITM; e.e.

The Language Gym  Ideas of MFL teaching and strategies for grammar

Gallwch ymuno â grwpiau ar Facebook.  Chwiliwch “Teaching MFL in Wales”, “Primary MFL”, “Teaching MFL” yn y bar ymchwilio, neu chwiliwch am #mfltwitterati ar Twitter.

Pob lwch gyda’r tasgau hyn.  Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi ym mis Medi!

*Kerry*